17 Ebrill 2020

Llythyr at bob Swyddog Cyfrifol ynghylch y Grant Cymorth i'r Gymraeg

Annwyl gydweithiwr

Ysgrifennais atoch o'r blaen i'ch hysbysu bod y broses ymgeisio am y Grant Cymorth i'r Gymraeg bellach ar agor.

Mae'r grant wedi'i gynllunio i gynorthwyo cyrff dyfarnu cydnabyddedig i alluogi dysgwyr i ddilyn cymwysterau a reoleiddir drwy gyfrwng y Gymraeg.

O ystyried y pandemig COVID-19 cyfredol, mae'r dyddiad cau ar gyfer ceisiadau wedi'i ymestyn i 5 Mehefin 2020.

Gall ymgeiswyr wneud cais am gyllid ar gyfer yr holl gostau cymwys a gafwyd rhwng 1 Ebrill 2020 a 12 Mawrth 2021.

Rhaid e-bostio ceisiadau wedi'u cwblhau at grantiau@qualificationswales.org. Ni fydd unrhyw geisiadau a dderbynnir ar ôl y dyddiad newydd, 5 Mehefin 2020, yn cael eu hystyried.

I gael mwy o wybodaeth neu i lawrlwytho copi o'r pecyn cais a gwybodaeth atodol, ewch i'r adran Grant Cymorth i'r Gymraeg ar ein gwefan.

Yn gywir



Cassy Taylor

Cyfarwyddwr Polisi a Diwygio Cymwysterau, Cymwysterau Cymru

Qualifications Wales
Q2 Building, Pencarn Lane
Imperial Park,
Newport
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

Cymwysterau Cymru
Adeilad Q2, Lôn Pencarn
Parc Imperial,
Casnewydd
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

www.qualificationswales.org